# LLAIS YR ANDES

Mai 2016 $30


# YSGOL Y CWM YN AGOR EI DRYSAU




**Heb amheuaeth**, un o uchafbwyntiau cymuned Gymreig yr Andes eleni yw agoriad ysgol ddwyieithog newydd yn Nhrevelin. Wedi blynyddoedd o gynllunio a threfnu, gwireddwyd breuddwyd cymuned Gymraeg Trevelin gydag agoriad yr ysgol newydd

Daeth plant, athrawon, rhieni a chefnogwyr at ei gilydd ddydd Mercher y nawfed o Fawrth i weld yr adeilad newydd. Cafwyd cyfle i gyfarfod yr athrawon newydd a´r disgyblion newydd. Daeth criw ffilmio o´r orsaf deledu leol, a hefyd daeth unigolion o´r gorsafoedd radio lleol a gohebwyr papurau newydd. Siaradodd y brifathrawes Erica Hammond am fanteision addysg ddwyieithog gan bwysleisio bod yr ysgol ar agor i holl drigolion y gymuned, nid yn unig y sawl sydd o dras Gymreig.
Ond pam ysgol ddwyieithog? Er mwyn derbyn cefnogaeth gan y llywodraeth, roedd yn rhaid i´r ysgol fod yn ddwyieithog yn hytrach nag uniaith Gymraeg. Mae hyn



hefyd yn sicrhau bod yr ysgol ar agor i bawb o gymuned Trevelin yn hytrach nag i rieni sy´n medru talu i´w plant i fynd i ysgol breifat yn unig.

Wedi penderfynu mai trosglwyddo´r iaith Gymraeg i´r genhedlaeth nesaf oedd yr unig ffordd o gadw´r iaith yn fyw yn yr Andes, ac hynny drwy agor ysgol newydd i´r gymuned gyfan, bu rhaid codi´r arian i ddechrau´r gwaith adeiladu. Gwerthwyd rhannau o waddol y sefydlwyr cyntaf, sef plotiau o dir o gwmpas ardal Capel Bethel, Trevelin, ac aethpwyd ati i ddechrau codi´r adeilad newydd.
Ond er holl ymroddiad a gwaith caled gan gefnogwyr yr ysgol, rhaid oedd goresgyn sawl her.





Dros y flwyddyn ddiwethaf mae chwyddiant wedi gostwng gwerth y peso yn sylweddol gan olygu nad oedd digon o arian i gwblhau´r adeilad. Bu rhaid agor yr ysgol gyda dwy yn unig o´r ystafelloedd dosbarth wedi eu cwblhau. Er hynny, cwblhawyd dwy ystafell ddosbarth fawr gan ganiatau i´r ysgol feithrin agor yn ôl yr addewid. Tra bod trideg o blant yn mwynhau eu gwersi mewn un rhan o´r adeilad, tu ôl i wal dros dro, mae´r adeiladwyr wrthi´n paratoi´r rhan nesaf, sef dwy ystafell ddosbarth arall, rhagor dai bach ac hefyd cegin. Mae´r diffyg cyllid yn parhau i fod yn rhwystr gyda´r Gymdeithas Gymraeg yn parhau i orfod gwerthu plotiau o dir er mwyn parhau i ariannu´r gwaith adeiladu.



Dywedodd Margarita Green, Ysgrifenyddes pwyllgor yr ysgol ei bodd hi´n ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth. "Mae llawer o bobl leol a phobl o bedwar ban byd wedi cefnogi´r ysgol a gobeithiwn yn fawr y bydd y gefnogaeth hon yn parhau. Rydyn ni bron iawn a gwireddu´n breuddwyd o sicrhau dyfodol i´r iaith ym Mhatagonia. Yn y cyfamser, mae bywyd ysgol yn mynd yn ei flaen ac mae paratoi ar gyfer Eisteddfod Trevelin yn flaenoriaeth ar hyn o bryd.



# Staff Ysgol Y Cwm



Y Brifathrawes, Erica Hammond



Evangelina Davies, Athrawes



María de Oro, Athrawes Gerdd



Jessica Jones, Athrawes



Daniela Limache, Athrawes




Eluned Grandis, Athrawes



Camila Gomez Itxassa. Athrawes Ymarfer Corff



Jessica Hopkins Athrawes



Margarita Green Ysgrifenyddes



Clare Vaughan Athrawes



Ximena Roberts Athrawes



Nia Jones Athrawes

**Dafydd Iwan**
@dafyddiwan


pob dymuniad da i Ysgol y Cwm Trevelin. Boed i'r Gymraeg atseinio drwy'r Andes! #ysgolycwm

Gallwch ddilyn hanes Ysgol y Cwm ar eu gwefan ysgolycwm.com neu chwiliwch amdanynt ar Facebook a Twitter.

**Huw Edwards**
@huwbbc

@CwmYsgol Ardderchog. Llongyfarchion cynnes.






# CYNGANEDDU

## Gyda Siaradwyr Esquel



**Dros y chwe wythnos diwethaf, mae dosbarth Siaradwyr Esquel wedi mwynhau gwledd o lenyddiaeth, ymwelwyr, paneidiau a chacennau. Mae wedi bod yn fraint dechrau dysgu´r gynghanedd yng nghwmni Steffan Phillips.**

### Cynghanedd Lusg

*Rhaid i´r sillaf cyn y toriad odli gyda´r sillaf olaf ond un e.e.*

___________ / ____________

***Gwell Esquel / na Threvelin***

- Nofio´n braf yn yr afon
- Rhy hen i ddawnsio heno
- Mor rhyfedd yr haul heddiw
- Clebran yn yr Ariannin

### Yr Hydref

Englyn
gan Siaradwyr Esquel

*Daeth tymor niwl y bore – i gyfarch*
*a gafael calonne,*
*A'r cnau a´r lliwiau hyd 'lle*
*i adrodd yn yr hydre´.*

## Bu Iwan Madog yn gweithio yma yn yr Andes ac hefyd yn y Dyffryn fel athro Cymraeg a threfnyddd gweithgareddau.



*Annwyl bawb,*

Mae'n braf gallu ysgrifennu gair bach, er mwyn dweud ´chydig o fy hanes. Dwi'n meddwl amdanoch bob dydd, wrth i bethau bach fy atgoffa am rywun neu ryw hanes.

Ar hyn o bryd dwi'n byw yng Nghaerdydd, ac yn gweithio mewn swydd dros dro yn y Brifysgol yn gwneud gwaith gweinyddol. Nes i symud yma ddechrau mis Mawrth, ac wedi bod yn aros gyda ffrind, er mwyn gweld sut dwi'n licio'r ddinas. Dwi'n mwynhau yma ar hyn o bryd, ac yn mwynhau bod yn brysur yn gwneud pethau gwahanol. Does dim rhaid i chi boeni, dwi'n ymarfer fy Sbaeneg ar nos Lun ac Iau, pan mod i'n gallu mynd, yn nhafarn y Claud. Yr unig broblem ydi, efallai bydda i'n dysgu ambell air ac ymadrodd o Sbaeneg Sbaen. Mae yno lawer o bethau hoffwn i wneud, ond ddim yn cael cyfle i wneud popeth. Dwi'n credu fe wna i aros yma, am rŵan, ac mae nifer o syniadau gen i gyda gwaith.

Dwi ddim yn yfed mate mor aml y dyddiau hyn, ond dwi yn ei fwynhau ambell ddydd Sadwrn neu Sul diog wrth wylio'r teledu yn y bore. Mae fy stoc o jam llaeth wedi hen ddiflannu, ond mae gen i botel o fernet yn saff gyda fy rhieni yn y Gogledd. Es i allan neithiwr, a ches i'r pleser o gael gwydriad bach o fernet yn Ten Mill Lane, darganfyddiad gwych. Dwi yn coginio i fy hun yma, ac yn tueddu i fwyta amser mwy Archentaidd. Ond dwi'n gweld eisiau coginio Margarita ar y fferm, a chig blasus Charlie, ac yn cael ambell freuddwyd am yr asados.

Bues i'n gwrando ar Jam Llaeth ddiwrnod o'r blaen, braf oedd cael clywed llais Sara. Yr unig broblem oedd ei fod yn codi llawer o hiraeth arna i. Dwi'n gobeithio gallu eich gweld yn fuan, ond ddim yn siŵr pa mor fuan bydd y buan yna. Bydd rhaid i mi ddechrau rhoi arian mewn cadw mi gei, er mwyn cynilo digon o bres.

Dim ond gair sydyn ydi hwn i ddweud helo bach.  Cofion cynnes a llawer o fesos ac abrazos,

*Iwan*




## Teulu Newydd Yn Yr Ardal

Mae Ximena Roberts wedi dychwelyd i fyw yn yr ardal wedi pymtheg mlynedd o fyw yng Nghymru. Mae hi´n byw ar fferm y teulu rhwng Trevelin ac Esquel gyda´i gŵr Andy Morrison a´u plant Lennox a Llyr. Roedd Ximena´n Gweithio fel athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg y Login fach yn Abertawe ac erbyn hyn mae hi´n gweithio yn Ysgol y Cwm yn Nhrevelin, ble mae Lennox yn ddisgybl hefyd.

# Gadael Yr Hen Wlad

## Darlith Bob Puw



Cawsom y pleser o groesawu Bob Puw i'r ardal unwaith eto eleni. Mae o'n gyfarwydd â phawb ohonom gan iddo fod yn ymwelydd cyson i'r ardal, ond y tro yma cawsom y fraint o wrando arno yn traddodi darlith sydd yn olrhain hanes rhai o'i hynafiaid a ymfudodd gan adael ardal Llanuwchllyn ac anelu am Ogledd America ac hefyd yma i Dde America.

Daeth nifer i wrando arno yn y Ganolfan, Esquel a rhai i Bethel yn Nhrevelin, gan fod llawer o drigolion yr ardal yn ddisgynyddion i Benjamin a William Roberts , ac mae teuluoedd Huw Rowlands ac Evan Hopkins hefyd ymysg eraill, yn olrhain eu gwreiddiau i'r teulu hwn o Lanuwchllyn.



Rhoddodd Bob amlinelliad o brif resymau yr alltudio mawr a fu yn ystod y XVIII a'r XIX ganrif o Gymru, a mwy fyth o wledydd eraill fel Iwerddon a'r Alban a gwedill Ewrob.


'Roedd twf y boblogaeth, y tlodi a'r erlid gwleidyddol, ieithyddol a chrefyddol yn cydfynd a chynigion am dir rhad a rhyddid yn y Byd Newydd. Denodd hyn filoedd i ymsefydlu yn yr Unol Daleithiau, Canada, Brasil a'r Ariannin, gydag enwau megis Nova Scotia, Utica, Sasktchewan , Rio Grande do Sul, a Dyffryn Camwy a Chwm Hyfryd ym Mhatagonia yn dod a llawer o hanesion a straeon ac atgofion.



'Roedd hanes Jenny Blue Horse o llwyth y Siwx a'r fodryb Ann, y nyrs o Lerpwl , yn lliwgar iawn a hefyd hanes Wil Manco a gollodd ei fraich wrth gloddio am aur ac arain yn Bolivia, ac sydd a'i enw ar un o lynoedd ardal Esquel.

Diolch yn fawr Bob am ddarlith ddiddorol a hwyliog dros ben ac am yr holl waith ymchwil a fu cyn hynny!

*Diolch i Mary Green am yr adroddiad.*




## PATAGONIA CELTICA, CHWEFROR 12, 13 & 14






**Gwledd o gerddoriaeth**, dawns a llenyddiaeth Geltaidd. Un o uchafbwyntiau´r ŵyl eleni oedd y delynores Sian James a ddywedodd ei bod yn gwireddu breuddwyd wrth deithio i´r Wladfa am y tro cyntaf. Gobeithia´r trefnydd, Margarita Green y bydd mwy o artistiaid o Gymru´n perfformio yma yn y dyfodol. Pwy hoffai Margarita weld yn yr ŵyl yn 2017? Gwilym Bowen Rhys a´r band Plu.



# Pwy Dych Chi?

## *Dysgwyr newydd Esquel*



**Cecilia Chenot** dw i. Dwi´n byw yn Esquel ond dwi´n dod o Medoza. Dwi´n athrawes ond dwi wedi ymddeol. Dwi wedi priodi ac mae dwy o ferched da fi. Dwi´n dysgu Cymraeg achos dwi isho dysgu, ymarfer fy ymennydd, cyfathrebu a deall Cymraeg.

**Anahi Amed** dw i. Dwi´n byw yn Esquel. Athrawes dw i ond dwi wedi ymddeol. Mae tri o blant a gŵr da fi. Dwi´n siarad Cymraeg achos mae fy mab Ryan yn siarad gyda´i Deulu yn Gymraeg. Mae e´n dod o dras Cymreig.

**Geraldine Roberts** dw i.Dwi´n dod o Esquel. Myfyriwr dw i yn Ysgol 735. Mae teulu mawr da fi, dau frawd a dwy chwaer. Dwi´n hoffi Cymraeg. Dwi´n dysgu i roi sypreis i fy nheulu ac i ganu yn well.



**Teddy Lloyd** dw i. Dwi´n dod o Esquel. Agronomegwr dw i, dwi´n gweithio mewn swyddfa yn Esquel. Dwi wedi priodi ac mae pedwar o blant da fi. Dwi´n hoffi siarad Cymraeg achos mae gen i deulu Cymraeg.

Ar goll o´r lluniau hefyd mae Silvio.
Cawn ei gyfarfod ef yn y rhifyn nesaf!



**Jeremias Herrera** dw i. Dwi´n byw yn Esquel. Myfyriwr dw i yn  Ysgol 76. Mae tri brawd da fi. Dwi´n dysgu Cymraeg achos mae´n hwyl ac mae fy mrawd hefyd yn dod.



**Maxi Herrera** dw i. Dwi´n byw yn Esquel. Myfyriwr dw i hefyd ac mae tri brawd da fi hefyd. Dwi´n dysgu Cymraeg achos roedd ffrind wedi gwahodd fi ac roeddwn i wedi mwynhau!

# Taith Y Saith

Adroddiad gan
Tom Davies,
Croesoswallt

Yr wyf yn edrych allan trwy ffenest y stryd yma yn Croesoswallt, Sir Amwythig, yn edmygu'r olygfa o wastadedd Sir Amwythig. Ar ôl cael blas ar olygfeydd mawreddog Patagonia, mae'r gwastadedd yma yn edrych yn fach iawn. Mae yna debygrwydd rhwng Croesoswallt a'r Wladfa, sef bod y ddwy ardal tu allan i Gymru, ond yn parhau i siarad yr iaith Gymraeg a chadw'r diwylliant Cymreig. Ond mae'r Wladfa yn saith mil o filltiroedd o'r Hen Wlad a Chroesoswallt dim ond tair milltir o'r ffin a Chymru !



Aeth grŵp o saith ohonom i ymweld â'r Wladfa am bron i dair wythnos yn Chwefror 2016. O'r saith, mae Canon Michael Lloyd Rees syn byw yn Aberystwyth; Delmi a Mareth Harries o Llanbedr Pont Steffan; June Noble o Fanceinion; Gwyneth Bates o Dorset; John Davies o Aberdyfi a Llundain a minnau o Groesoswallt.

Trefnwyd ein taith gan Gwmni Teithiau Tango o Aberystwyth. Hedfan o Heathrow mewn Boeing 777 i Buenos Aires. Aros dwy noson yn y gwres trymaidd, yn y ddinas brysur. Yna hedfan tua'r Andes i gychwyn yr antur o ddifri, a'n golwg cyntaf o Batagonia. Dyma'r freuddwyd yn cael ei gwireddu o'r diwedd. Cyfarfod ein tywysydd yn y Wladfa, Jeremy Wood, oedd yn byw yn Esquel ac Ishmael gyrrwr y bws bach ym maes awyr Esquel. Hwythau yn ein tywys o gwmpas tref Esquel yng nghysgod Yr Andes. I roi braslun o'n taith, dyma'r llefydd ddaru ni aros dros nos, o'r noson gyntaf hyd at yr olaf. Buenos Aires (dwy noson), Esquel, (1) , Trevelin(4), Estancia La Paz(2), Esquel(1), Gualjaina(1), Yr Allorau(1), Y Gaiman(3) Buenos Aires(1).

Ar y diwrnod cyntaf yn Esquel, ymweld â Chapel Seion. Cawson ein croesawu i nifer o'r capeli Cymraeg. Os oedd y drws dan glo, byddai un neu ddau o'r ffyddloniaid yn ymddangos i'n croesawu i mewn. Yn Seion cawsom ymuno i ganu emyn, felly yng nghapel Bethel, Trevelin. Mae'n galonogol bod cymaint o'r capeli yn dal yn agored, ac yn cynnal gwasanaethau, ddim yn unig y Sbaeneg, ond hefyd yn yr iaith Gymraeg. Roedd pob un o'r capeli mewn cyflwr arbennig o dda. Capeli eraill ddaru ni ymweld â nhw oedd: y capel bach Glan Alaw, lle ddaru'r gŵr bonheddig Aldwyn Brunt adael ni i mewn a dweud hanes y capel. Yng nghapel Bethel, Tir Halen ddaru ni ymuno yn y Gymanfa ganu ysbrydol, a'r Canon Michael yn diweddu'r oedfa. Wedyn Capel Bethel, Y Gaiman efo'r ddysgedig Luned Roberts de Gonzales yna i roi croeso a gwybodaeth. Ymunodd Luned de Gonzales i swpera gyda ni, ac yr oedd hi yn cymryd diddordeb yn bob un ohonom. Roedd gan Mareth a Delmi gyfnither fu yn gweini fel cenhades yn Y Wladfa dros amser maith. Bu farw Mair Davies yn 2009 a chawsom ni ymweld â'i bedd ym mynwent fawr Y Gaiman. Mair Davies ddaru sefydlu i siop lyfrau Cristionogol yn Trelew sydd yn cael ei rhedeg rwan gan bar priod croesawgar.

Ymweliad a Melin Nant Fach efo Merfyn Evans y perchennog. Roeddem yn ffodus hefyd i gyfarfod eu tad, Vincento Evans, yn eu cartref, ac fe fu'n ein diddori ni efo hanes y teulu, wedyn canu i gyfeiliant ei acordion. Diwrnod cyfan ym Mharc Cenedlaethol Los Alerces, lle ddaru ni weld y condor - do yn wir ! Y mynyddoedd a'r llynnoedd yn hynod brydferth. Cylchdaith hir y diwrnod canlynol lle aeth rhai o'r grŵp i droedio rhan o ffordd y "Rifleros", y man lle gwnaethant, o´r diwedd, ddarganfod y cwm hyfryd. Ar hyd ein hymweliad a'r Wladfa roedd y golygfeydd yn syfrdanol!

Gwyl Patagonia Celtica ar y maes yn Estancia La Paz, a chopaon Gorsedd y Cwmwl yn edrych lawr ar yr Afon Fawr. Yn cynnwys Siân James, y gantores o Ddyffryn Banw, Sir Drefaldwyn, Cymru yn ein difyrru a'i llais swynol, ac yn cyfeilio ar ei thelyn ei hun. Hefyd ar y maes trosglwyddodd y Canon Michael Rees Beibl Patagonia yn ol o Gymru i Margarita Green mewn seremoni anffurfiol.

Rhai o'r uchafbwyntiau eraill: Y bws bach yn teithio i mewn i grater anferth y llosgfynydd diffoddedig, a phawb wedi syfrdanu! Y teithio hir ar hyd y rhannau uchaf yr Afon Camwy, y golygfeydd unwaith eto mor wahanol i'r rhai sydd i weld yng Ngymru. Daearyddiaeth leol nad yw'r camera yn gallu gwneud cyfiawnder â fo. Disgyn o'r bws bach unwaith eto, y tro hwn yn yr



anialwch wrth gofeb Dyffryn y Merthyron, y man lle yn 1885 ymosododd carfan o Indiaid ar bedwar Cymro. Cafodd John Daniel Evans ddihangfa wyrthiol drwy ddewrder ei ebol, Malacara. Ond yr ydych chi´r darllenwyr yn gwybod yr hanes yn iawn, wrth gwrs! Nant y Pysgod, y man llofruddiwyd Llwyd ap Iwan, mab Michael D. Jones gan herwyr. Pryd nos arbennig yn y "Parilla La Tradicion", bwyty "gaucho". Heibio argae Ameghino. Rhyfeddol y newid yn y ddaearyddiaeth leol. Croesi´r paith yn dilyn llwybr traddodiadol y darganfyddwyr Cymreig o Gwm Hyfryd, o Gualjaina i'r Allorau, gan alw mewn ysgol yn Cerro Condor, canolfan ´palaeontological´ Chubut. Cyrraedd Dolavon,Y Gaiman, Trelew, Rawson, Porth Madryn. Enwau cyfarwydd i ni yng Nghymru. Nawr gallwn ddweud, "Roedde ni yna!" Roedd ein tywysydd Jeremy yn ddiflino yn sicrhau ymweliadau i´r llefydd pwysig yn hanes Y Wladfa.

Mae yna ychydig o'r daith sydd ddim yn ymddangos yn y nodiadau hyn. 'Rydwyf wedi trio rhoi blas o'r antur fythgofiadwy hon. Pob un o'r saith ohonom wedi mwynhau cyfeillgarwch pobl Patagonia, rhyfeddu at ddewrder y rhai sydd yn cadw´r iaith Gymraeg yn fyw yn y cartref, yr ysgol a'r capel, ac mewn amryw ffyrdd eraill. A hynny saith mil o filltiroedd o'r hen wlad, a chant a hanner o flynddoedd ers y Glaniad yn New Bay.

*"A hon yw ein gwlad. Rhown fawl i'n tadau*
*O ddiwyd antur. A'r breuddwyd yntau:*
*Y tir pell, hwy a'i gwelsant o'r pyllau,*
*A chyrchu'r haul o lwch oer chwarelau:*
*Troi'r tywod yn ardd flodau;- Arloeswyr!*
*Hwynt-hwy fydd arwyr haneswyr oesau."*

*R. Bryn Williams (awdl "Patagonia")*



## DATHLU PEN BLWYDD ESQUEL, CHWEFROR 27

**Roedd y Ganolfan dan ei sang** gyda thrigolion Esquel ac ymwelwyr yn dod at ei gilydd i fwynhau´r dathliadau. Llongyfarchiadau i´r criw fu´n paratoi rhai o deisennau mwyaf blasus y Wladfa. **Bydd te parti arall i godi arian at y gwaith adeiladu ar Mai 28. Da chi, peidiwch â cholli cyfle i lenwi´ch bolie!**









# Plant bach
## Esquel





Mae ffrindiau bach Esquel
yn mwynhau arlunio, coginio,
canu, chwarae gemau a
gwylio ffilmiau fel
Fflic a Fflac a Sam Tân.





## Sut wyt ti?



Dwi´n hapus

Dwi´n hapus

Dwi´n hapus

# Ymwelwyr yn parhau



Liam o Lanberis

A hithau´n tynnu tuag at ddiwedd blwyddyn y dathlu mae´r ymwelwyr yn parhau i ddod i´r Andes i weld yr iaith yn ffynnu. Mae diddordeb mawr yn hanes y Cymry´n sefydlu, nid yn unig ymysg Cymry´r hen wlad ond hefyd ymysg bobl yr Ariannin, Archentwyr o´r ardal leol a thu hwnt. Anaml iawn na fydd rhywun o gwmpas, fel arfer Elis Williams, i gyfarch ymwelwyr ac i agor y Capel iddynt. Dyma rai o´r bobl fu´n ymweld â Chapel Bethel,Trevelin yn ddiweddar.




Y teulu Tantucci o Fuenos Aires



Rosie Mai o Lundain



Pierre o Ffrainc




Tomos a Lois



Sian a Carl o ardal Machynlleth




Eirian a Sue O Lundain



Tomos a Deian, Caerdydd

# Capel Bethel

Ymweliad gan ddisgyblion Ysgol Néstor G. Salvatierra, Trevelin. Adroddiad gan ***Bri Roberts*** a ***Nahiara Bonillo*** sydd wedi dechrau dysgu´r Gymraeg eleni.



Aethon ni i Capel Bethel. Gwrandawon ni ar Gwion. Eisteddon ni ar y cadeiriau pren a siaradodd Gwion. Gwelon ni´r capel. Gofynon ni gwestiynau. Darllenon ni´r Beibl ac edrychon ni ar y lluniau. Tynnon ni luniau. Canais i yr organ (Nahiara) ond canon ni ddim emynau. Aethon ni i Ysgol y Cwm. Gwrandawon ni ar Nia. ac edrychon ni ar lyfrau Cymraeg. Dysgon ni i siarad Cymraeg, dywedon ni bore da, diolch a hwyl. Dywedon ni hwyl fawr ac aethon ni adref.

***OEDFAON:***
***BYDD CYMANFA GANU YNG NGHAPEL BETHEL TREVELIN YN DILYN YR EISTEDDFOD AR YR 8fed O FAI AM 11yb. BYDD OEDFA YN CAEL EI CHYNNAL YNG NGHAPEL SEION ESQUEL AM 5 O'R GLOCH AR Y 22ain O FAI GYDA THE I DDILYN YN Y GANOLFAN. CROESO CYNNES I BAWB***



**Pregeth Capeli'r Andes – Isaías Grandis**

**Dewi Sant**

Efallai wnaeth rai ohonoch ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant drwy wisgo cenhinen Bedr neu fwyta picau ar y maen neu bicau bach. Ond faint ydyn ni wir yn ei wybod am Dewi Sant? Dewch i ni gael gweld...

Ganwyd Dewi, yn ôl y sôn, yn ne Ceredigion neu yng ngogledd Sir Benfro, ac yn wahanol i nawddseintiau eraill gwledydd Prydain - mae cryn dipyn o wybodaeth ar gael am ei fywyd, ac mae'n frodor o'r wlad y mae'n nawddsant arni.

Mae'n debyg i San Siôr (Saint George, nawddsant Lloegr) gael ei eni yn Cappadocia - sydd bellach yn rhan o ddwyrain Twrci; credir mai Cymro neu Albanwr oedd San Padrig (Saint Patrick, nawddsant Iwerddon); a ganed Sant Andrew (nawddsant yr Alban) yng Ngwlad yr Iorddonen.

**Ei eni o dras frenhinol** Roedd mam Dewi, Non, yn lleian ac yn ferch i bennaeth lleol a'i dad, yn ôl yr hanes, yn fab i Ceredig, tywysog Ceredigion. Mae un chwedl hefyd yn dweud fod Non yn nith i'r Brenin Arthur.

Mae llawer o'r hyn yr ydym yn ei wybod am Dewi yn dod o waith Rhigyfarch ap Sulien, awdur o'r 11eg ganrif a ysgrifenodd 'Buchedd Dewi'. Gan i waith Rhigyfarch gael ei ysgrifennu dros 500 mlynedd wedi i Dewi farw, mae amheuaeth pa mor ddibynadwy yw'r hanes.

**Addysg, a chrefydd** Mae'n debyg i Dewi gael ei addysg yn Llanilltud Fawr, ac yn ôl Rhigyfarch, adferodd Dewi olwg ei diwtor Sant Paulinus. Daeth yn ffigwr blaenllaw yn yr Eglwys Geltaidd, a sefydlodd fynachlog yn y porthladd Rhufeinig 'Menevia' yn Sir Benfro - yn ddiweddarach daeth y lle hwn yn ddinas gadeiriol wedi ei henwi ar ôl Dewi - Tyddewi.

**Y bregeth ar y bryn** Mae nifer o chwedlau yn ymwneud â Dewi, ond efallai mai'r enwocaf yw'r bregeth yn Llanddewi Brefi, Ceredigion. Casglodd torf anferth i wrando ac roedd llawer yn cwyno nad oeddent yn gallu gweld na chlywed beth oedd yn digwydd.
Dywed y chwedl i Dewi osod hances ar y llawr cyn sefyll arni, ac yn sydyn, cododd bryn bach o dan ei draed gan ei godi fel y gallai pawb ei weld. Mae rhai yn dweud hefyd fod colomen wen wedi glanio ar ei ysgwydd, yn arwydd gan Dduw o'i sancteiddrwydd.

**"Gwnewch y pethau bychain..."** Rhai o eiriau olaf Dewi cyn iddo farw oedd ei rai enwocaf. Cofnodwyd ei bregeth olaf yn Llyfr Ancr Llanddewibrefi o'r 14eg Ganrif: 'Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i'.
Roedd Dewi yn ffigwr canolog yn natblygiad Cristnogaeth yng ngwledydd Prydain Baganaidd ac roedd ganddo gysylltiadau cryf ag Iwerddon.

**Dydd Gŵyl Dewi** Dywed Rhigyfarch i Dewi fynd ar bererindod gyda dau o seintiau eraill Cymru, Teilo a Phadarn, i Jerwsalem lle cafodd y tri eu cysegru yn esgobion a chafodd Dewi ei urddo yn archesgob.
Daeth ei fynachlog yn ganolfan ysbrydol pwysig ac erbyn y 12fed Ganrif roedd Tyddewi yn ganolfan i esgobaeth oedd yn ymestyn dros hanner Cymru. Cafodd Dewi ei hun ei gydnabod yn arweinydd y Brythoniaid ac mae'r gerdd Armes Prydein o'r 10fed ganrif yn sôn am 'faner' Dewi fel baner y cynghreiriad yn erbyn y Saeson.

Mae'n debyg iddo ddod yn nawddsant i'r Cymry am fod cynifer o eglwysi hynafol Cymru wedi eu cysegru iddo a'i Ŵyl Mabsant yn cael ei dathlu mewn mwy o eglwysi nag unrhyw un o'r seintiau eraill. Mae rhai yn honni fod Mawrth 1af, dyddiad ei farwolaeth, wedi ei ychwanegu i galendr yr Eglwys pan ganoneiddwyd Dewi gan y Pab Callistus II yn 1120 ond mae'r dyddiad yn cael ei nodi fel Dydd Gŵyl Dewi mewn llawysgrifau Gwyddelig o'r 9fed Ganrif hefyd.

Roedd Dewi yn Efengylwr, hynny yw yn pregethu am newyddion da iachawdwriaeth, a chofiwch mai ystyr y gair 'efengyl' ydy newyddion da, a dyma beth mae pregethwr yr efengyl neu'r efengylwr yn ei wneud, datgan newyddion Da yr Arglwydd Iesu Grist ein Gwaredwr i bawb.

Ar ôl atgyfodi mae Iesu'n dweud wrth ei ddisgyblion (Marc 16, adnod 15):
"Ewch i gyhoeddi'r newyddion da i bawb drwy'r byd i gyd. Bydd pob un sy'n credu ac yn cael ei fedyddio yn cael ei achub".
Gwnaethpwyd hyn gan lawer o ddynion, megis Patrig, Sant Iwerddon ac Andrew, Sant yr Alban, ymhlith eraill.

Bu sawl Efengylwr arall yn hanes Cymru hefyd fel DANIEL ROWLAND, THOMAS CHARLES ac EVAN ROBERTS o'r Eglwys Fethodistaidd neu Bresbyteraidd Galfinaidd.

Boed i ninnau hefyd ddilyn eu hesiampl.

## GWYL Y DYRNU, MAWRTH 26



**Daeth cyfle i ddathlu´r hen ffordd o fyw**, ym Melin Nant Fach gyda Mervyn Evans. Roedd peiriannau a dulliau amaeth traddodiadol ar waith yn ogystal â chyfle i ymweld ag amgueddfa anhygoel Merfyn. Gobeithio wir, yn sgil llwyddiant y digwyddiad y daw´r **Fiesta de la Trilla** yn ddathliad blynyddol!

# Llythyr Hazel Charles Evans

*Mae **Hazel Charles Evans** yn adnabyddus i bawb am ei gwaith diflino i godi arian at addysg Gymraeg yn yr Andes. Rhag ofn na welsoch chi ei llythyr diweddar yn Y Cymro ac hefyd mewn nifer o bapurau bro, dyma fe.*



Annwyl Olygydd,

Braf ydoedd clywed am agor Canolfan Gymraeg yng Nghaerdydd. O'r diwedd! Dylai hon wneud byd o wahaniaeth i Gymry'r Brifddinas, boed yn siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr. Adeilad amlbwrpas ar gyfer pobl o bob oed.

Fel yr athrawes gyntaf a fu'n gweithio yn yr Andes o dan y Cynllun Dysgu Cymraeg ga i ddweud mor falch y mae 'Cymry' Esquel o'u Canolfan hwythau. Pan gyrhaeddais i yno ym 1997 yr unig gyfle gaent i gymdeithasu oedd ar y Sul, a hynny ond yn achlysurol, gan mai dim ond rhyw bedair neu bum gwaith y flwyddyn yr agorai capel Seion ei ddrysau! Buan y newidiodd pethau ar ôl i mi gyrraedd oherwydd wrth dderbyn arweiniad bu yno addoli cyson. Gwelais, er hynny, nad oedd gan yr Archentwyr hyn o dras Cymreig fodd i gwrdd â'i gilydd, i fwynhau nosweithiau llawen, i gynnal twmpath, i baratoi ar gyfer yr eisteddfodau nac i wylio'r tapiau fideo y byddent yn eu derbyn yn rheolaidd gan garedigion o Gymru. Codi Canolfan oedd yr unig beth amdani!

Dyma fynd ati i 'werthu brics' ar eu rhan - punt y fricsen! Yn Eisteddfod Penybont ar Ogwr ym 1998 i ddechrau ac yna yn Eisteddfod Môn, Llanelli a Thyddewi. Llythyru papurau bro, cymdeithasau o bob math, clybiau cinio a chorau. Derbyn rhoddion gan unigolion ledled Cymru. Trosglwyddo'r symiau arian gan gynnwys pob ffi am annerch hwnt ac yma i ofal pobl gyfrifol yn Esquel. Digon o bres i osod y sylfaen i ddechrau, gefngefn â'r capel, ac ymlaen nes bod digon i godi Canolfan braf a hynny gyda chydweithrediad y bobl draw heb anghofio'r gefnogaeth a gafwyd gan lywodraeth y Dalaith.

Llwyddwyd i agor y Ganolfan ym mis Mawrth 2002 ac erbyn hyn mae wedi agor ei drysau i gannoedd o ymwelwyr o Gymru ac wedi paratoi gwledd o fwyd ar eu cyfer. Ond nid croesawu ymwelwyr yn unig yw amcan y Ganolfan. Mae'r adeilad ar agor yn ddyddiol er mwyn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i siaradwyr a dysgwyr o bob oed a chefndir. Ceir cegin fach yno lle bydd y tegell bob amser yn mudferwi ar gyfer cymryd tot o FATE! Yn y Ganolfan mae'r llyfrgell a'r ffilmgell. Dyma lle bydd y plant yn eistedd wrth draed eu hathrawon a'r bobl ifainc, trwy weithgareddau Menter Patagonia, yn cynnal twmpath ac yn cael hwyl ar actio a choginio. Dim rhagor o orfod llogi ystafell yma ac acw a neb yn gwybod yn union beth oedd yn digwydd. Dim o'r fath oherwydd mae gan Gymry Esquel, bellach, eu haelwyd eu hunain.

Â'r adeilad bron â bod yn 14 oed mae galw am estyniad. Mae galw am ddwy ystafell ddosbarth, am swyddfa fechan, am 'departamento' ar gyfer yr athrawon a ddaw o Gymru ac i'r gwirfoddolwyr fydd yn cynnig eu gwasanaeth yn eu tro. Mae'r estyniad newydd ar ei hanner a does fawr o obaith cwblhau'r gwaith heb gymorth ariannol o Gymru. Derbyniwyd swm o arian tuag at y prosiect gan lywodraeth y Dalaith, ond mae hwn eisoes wedi'i wario! Disgynnodd y 'peso' yn ei werth ac mae costau byw ar ôl i'r llywodraeth newydd ddod i fod wedi mwy na dyblu.

Dyma fi, felly, unwaith eto yn cymryd y cyfrifoldeb o ofyn am gyfraniadau gan sefydliadau a chymdeithasau ac unigolion. Gwn fod galwadau lu arnom yng Nghymru y dyddiau hyn, ond os oes rhywun yn teimlo ar ei galon y gall gyfrannu swm o arian, boed fach neu fawr, a fyddwch mor garedig, os gwelwch yn dda, â chysylltu â mi. Mae cyfrif yn dal i fod ym Manc Lloyds, Rhydaman yn dwyn yr enw 'CANOLFAN GYMRAEG YR ANDES.'

Yr eiddoch yn gywir,
Hazel Charles Evans,
Llandybïe,
Rhydaman.

*Bydd te parti yn y Ganolfan yn Esquel ar y pumed ar hugain o Fai er mwyn codi arian i dalu am y Gwaith adeiladu. Croeso cynnes i bawb!*

# CROESO YN YR ANDES





## HAYDN HUGHES

**Ces i groeso anhygoel yn yr Andes, yr union math o groeso roeddwn i'n ei gofio pan fues i yma ddiwetha** , dair blynedd yn ôl. Ond mae'n rhaid dweud bod yna adeg pan oedd y croeso yn oeraidd a dweud y lleiaf. Brysiaf i ddweud mai fy mai i oedd hynny. Dyma i chi'r stori...

Dw i'n credu mai fy ail ddiwrnod yn Esquel oedd hi. Nid y croeso yn unig oedd yn dwym – roedd y tywydd hefyd yn eithriadol o gynnes. Fel pob Cymro – pan ddaw'r haul allan – rhaid canfod rhywle i eistedd allan ynddo. Rwy'n deall yn iawn bod pobl y Wladfa yn wahanol yn hyn o beth. Prin iawn ydy'r parciau yn Esquel ble mae pobl yn gwneud dim ond eistedd a mwynhau'r tywydd braf. Dach chi'n llawer iawn rhy brysur i'r math yna o beth debyg iawn!
Wel, roeddwn i'n benderfynol o ffeindio parc a dyma fi'n cerdded o westy'r Cumbres Blancas , ble roeddwn i'n aros, ar hyd y briffordd allan o Esquel. Pan ddois i at y Casino gweles i'r hyn oeddwn i wedi bod yn chwilio amdano – PARC!!!

Doedd o fawr o barc a dweud y gwir –darn hir o laswellt efo tŵr yn ei ganol, ond yr ochr arall i'r ffens oedd yn rhannu'r parc, roedd yna griw o bobl ifanc yn cicio pêl. Ac yn eistedd. Yn yr haul. Rhaid oedd mynd atyn nhw!
Cerddais i hyd ochr y ffens nes dod at y tŵr. Dyna syniad da, meddyliais, tŵr i ymwelwyr gael ei ddringo a thynnu lluniau o'r golygfeydd anhygoel o'r Andes oedd o gwmpas. Felly i fyny a fi ac yn wir ges i luniau anhygoel 360 gradd o ben y tŵr. Treuliais i ychydig o amser yn mwynhau'r golygfeydd yn yr haul disglair cyn dringo i lawr y grisiau ac yn ô at y ffens. Roedd yr hogia dal yn chwarae pêl-droed ac yn mwynhau'r tywydd braf. Mi fydda i efo nhw mewn munud.

Fedrwn i ddim yn fy myw ffeindio'r ffordd mewn i'r rhan yma o'r parc, ac fel o'n i'n chwilio yn ddyfal mi redodd rhyw ddyn blin ofnadwy, oedd yn gwisgo crys glas, tuag ata fi o'r ochr arall i'r ffens. Roedd yn gweiddi arna i mewn ffordd oedd yn ei gwneud yn amlwg nad oedd o'n hapus mod i yn y parc. Dydy fy Nghastilliano i ddim yn wych ond mi roeddwn i'n deall yn iawn yr hyn oedd o'n drio ei ddweud.
'Iawn' meddwn i 'Mi a i o'ma rŵan.' ' Na ' meddai'r dyn gwyllt ' Chei di ddim mynd i unman. mae fy nghydweithiwr ar ei ffordd'. Ac yn wir, fy ochr i o'r ffens roedd yna ddyn arall mewn crys glas yn rhuthro tuag ata i. 'Mae'n iawn . Dw i'n mynd' dwedais i wrtho fo. 'Na' meddai yntau yn gadarn. Doeddwn i ddim yn deall pam. 'Mae'n ddrwg gen i roeddwn i'n meddwl mai parc cyhoeddus oedd hwn' meddwn i. Cwbl wnaeth y crys glas oedd croesi ei addyrnau i wneud symbol o 'efynnau', (ai *esposas* ydyn nhw mewn Castilliano ?) – y pethau sy'n cael eu rhoi ar addyrnau pobl wrth eu harestio.
Doeddwn i ddim yn poeni ar yr adeg hynny, wedi'r cwbl – doeddwn i ddim wedi gwneud dim o'i le. Roedd y crys glas am i mi gerdded efo fo ac mi wnes i hynny'n ddigon hamddenol. Gofynnodd i mi be oeddwn i'n ei wneud yn Esquel ac mi eglurais i mod i'n helpu efo'r addysgu ac yn y blaen. Roedd hi dal yn ddirgelwch i mi pam oedd hi'n ymddangos mod i mewn rhyw fath o drafferth. Yn sydyn gofynnodd i mi oedd gen i gerdyn visa. Dyna pryd sylweddolais i beth oedd yn digwydd. Roedd y plismyn llwgr yma am fy nghyhuddo i o dresbasu a dwyn pres o fy

ngherdyn Visa! Fel oedd hi'n digwydd roedd gen i gerdyn Visa yn fy waled, ond doeddwn i ddim am syrthio am y tric yma. 'Nac oes, does gen i ddim Visa ' atebais i. "Dim o gwbl?' gofynnodd y crys. 'En absoluto' meddwn i, yn llawn hyder. 'Iawn' meddai ' rwyt ti'n dod gyda fi'

Doeddwn ni dal ddim yn siŵr be oedd yn digwydd ac yn wir ces i sgwrs ddigon diddorol gyda'r crys glas- sôn am Gymru a'r Ariannin a'r dathliadau ac yn y blaen. Cyrhaeddon ni ben draw y ffens ac at yr adeilad oedd gyferbyn a'r Casino. Dyna pryd gwelais i'r gair ' Cárcel' ac yna sylweddoli yr hyn oeddwn i wedi ei wneud. Nid parc cyhoeddus oedd hwn, ond tir y carchar. Roeddwn i wedi dringo tŵr y *'guardias'*. Roeddwn i wedi tynnu lluniau o'r carchar a'r carcharorion. Roeddwn i wedi dweud fod gen i ddim visa – hynny yw dim hawl i fod yma. Ron i mewn trafferthion o'n doeddwn. TRAFFERTHION MAWR. Mewn a mi i'r Cárcel ,ac yna i'm disgwyl roedd y crys glas blin welais i ynghynt, a dyn arall efo hamfwrdd, neu '*bandeja'* i gymryd fy meddiannau cyn fy nghloi yn y gell! Erbyn hyn roeddwn i'n wirioneddol poeni! Mi fuodd yna sgwrs reit ffyrnig rhwng y crys glas clên a'r crys glas blin. Clywais i'r crys clên yn dweud ' esta tranquilo' , ond doedd fawr o berswâd ar y crys blin. Yn y diwedd ar ôl 10 munud o sgwrsio dyma'r crys blin yn cyfarth arna i. Deallais i'r gair gynta ' Casi..' ond ddim y gweddill. Troais i at y crys clên a dweud mod i ddim yn deall.

Mi groesodd i ei addurnau eto ac rŵan roeddwn i'n sicr mod i am dreulio amser mewn cell. Mwyaf sydyn agorodd o'r drws i ryddid gan ystumio i mi fynd allan. Es i oddi yna fel bwled, heb unwaith edrych yn ôl.

Wel dyna hanes fy ail ddiwrnod yn Esquel ac er mor gythryblus oedd, wnaeth o ddim amharu dim ar fy amser yn eich cwmni. Roedd hi'n bleser ac yn fraint cwrdd a chymaint ohonoch. Rwy'n edrych ymlaen at gael cyfle i ddod draw unwaith eto.

**TAN TRO NESA.**



# OWAIN PUW O´R PARC



Ar ei ffordd nol i Gymru wedi blwyddyn o weithio yn Seland Newydd, cafodd Owain, 21, gyfle i dreulio chwech wythnos gyda´i deulu sef Maria Esther Evans a Roy Jones, tra´n gweithio gyda´u mab Leonardo ar y fferm.

Wrth sôn am ei brofiad yma, dywedodd ei fod wedi sylwi ar sawl gwahaniaeth rhwng ffermio yma a ffermio nôl yng Nghymru. Mae llawer mwy o ddefaid yng Nghymru ac hefyd mae llawer mwy o ddŵr yna. Mae ffermio yma dan amodau sych iawn yn gallu bod yn anodd. Uchafbwyntiau´r ymweliad i Owain oedd canu yng nghôr Irving Evans ac hefyd yr holl fwydydd blasus a gafodd gan Maria Esther.

# RYSÉITIAU



## • Rholiau o ffroes wedi´u llenwi gyda chig oen a phigoglys (Canelones yn Sbaeneg)

### Cynhwysion

**Ar gyfer y ffroes:**

- Un neu ddau wy (yn dibynnu faint o ffroes yr ydych yn meddwl eu gwneud).
- Cwpan llawn o flawd "leudante" (blawd codi)
- Llaeth

**Llewnwad (relleno):**

- Cig oen wedi ei goginio a´i dorri´n fan iawn (picado)
- Pigoglys wedi ei ferwi a´i dorri´n fan hefyd
- Un wy
- Caws wedi gratio (llwyaid fawr neu ddwy)
- Ychydig o nionyn wedi ei dorri´n fan
- Halen a phupur a nytmeg

### Paratoad

**Ffroes:**

Cymysgwch y melynwy efo ychydig o´r llaeth ac ychwanegwch y blawd. Trowch y cymysgedd efo llwy bren, tan iddo fod fel hufen. Ychwanegwch y gwynnwy wedi ei guro tan iddo fod "a punto de nieve" (yn debyg i eira/yn galed ). Ychwanegwch y llaeth a´r cymysgedd tan iddo sefyll fel hufen meddal.

Coginiwch y ffroes a rhowch nhw un ar ben y llall. Ar wahân, cymysgwch y cig oen efo´r pigoglys, y nionyn, yr wy cyfan, caws wedi gratio, halen, pupur a´r nytmeg a llenwch y ffroes a rholiwch nhw. Rhowch y ffroes mewn dysgl – gallith fynd i ´r ffwrn efo trwch o saws gwyn a digon o gaws wedi ei gratio ar ei dop. Gallwch ychwanegu ychydig o saws coch arno cyn gweini ar y platiau.

## • Empanadas Traddodiadol



### Cynhwysion

**Ar gyfer y Toes**

(Dwi´n ei brynu yn barod!)

1 Kg o flawd plaen

1 cwpaned o saim eidion wedi toddi (lard)

½ litr o ddŵr poeth

1 llwy fwrdd o halen bras

**Llenwad:** 1kg o gig eidion man

1kg o winwns wedi torri´n fan

100g o saim eidion

Dwsin o ffrwyth olewydd

Dau wy wedi berwi´n galed ac wedi eu sleisio

Pinsiad o halen (1/2 llwyaid)

1 llwy de o baprica

1 llwy de o chili

Deilen neu ddwy o laurel (bay leaf)

1 llwy de o oregano

hanner cwpan de o syltanas



Diolch i Cristin Jones am rysait y canelones ac i Gladys Jones am rysait yr empanadas



### Paratoad

Rhowch y blawd mewn powlen ac ychwanegwch y saim, yr halen a´r dwr poeth. Cymysgwch gyda ´i gilydd i wneud toes. Ffriwch y winwns hyd nes eu bod yn feddal. Ychwanegwch y paprika a´r chili, cyn ychwanegu´r cig. Coginiwch hyd nes bod y cig yn barod. Ychwanegwch weddill y cynhwysion.

Rholiwch y does yn weddol denau a thorrwch 12 cylch allan ohono. Rhowch lond llwyad o´r cymysgedd yng nghanol pob un o´r cylchoedd, gan wneud yn siŵr bod un olewydden ym mhob un. Plygwch y disgiau toes yn eu hanner, a phwyswch yr ochrau lawr gyda fforc wlyb.

Ffriwch y cyfan mewn sosban ddofn o saim, hyd nes eu bod wedi brownio.

# WEL, DYMA GWM HYFRYD!

**Mae´r hen ebychiad cyfarwydd yn deyrnged i harddwch naturiol y dyffryn ble llifa´r afon Percy i lawr o lethrau pigog yr Andes, drwy ddolydd gwyrddion ar ei ffordd i´r Cefnfor Tawel.** Ond, er nad oes dadlau prydferthwch y dirwedd sy´n amgylchynu Trevelin dros 130 o flynyddoedd wedi´r datganiad enwog hwnnw, does dim amau ´r chwaith fo´r olygfa yn un tra gwahanol. Wrth gwrs, mae sefydlu a datblygu unrhyw dref yn dod a newidiadau mawr i wyneb y tirlun lleol, ond mae newidiadau llawer dyfnach hefyd wedi digwydd ers ddyddiau´r Cymry cynnar.

Ychydig iawn o amheuaeth sydd bod hinsawdd y ddaear yn newid, ac mae llu o adroddiadau gwyddonol yn denu ein sylw at y mynydd o dystiolaeth sy´n awgrymu ein bod yn byw trwy gyfnod o gynhesu byd eang. Mae ´r dystiolaeth anecdotaidd hefyd yn sefyll er ei liwt ei hun. Yng Nghymru mae´r tymhorau´n brysur ddrysu: cennin Pedr yn blodeuo cyn y Nadolig, eira´n disgyn yn drwchus ym mis Mehefin.

Gyda phlanhigion Cymru yn blodeuo ym mis Rhagfyr, a thrwch o eira´n disgyn yno yng nghanol y flwyddyn, buasai´n ddigon teg i rywun feddwl eu bod mewn cesail ddeheuol o´r Andes. Ond mae pethau wedi bod yn newid yn araf deg yn y fan hyn hefyd.

Un sydd wedi gweld newidiadau pendant a hirdymor yn hinsawdd yr ardal dros y blynyddoedd yw Elis Williams, un o drigolion Trevelin. Mae Elis yn cofio´r blynyddoedd hynny pan fu eira trwm, er eu bod bellach yn achlysuron prin:

“Yn ´84 roedd yna eira mawr, ac wedyn dim ond ychydig bob blwyddyn tan 2001. Yn 2001 doedd pobl methu dod o Esquel o gwbl gan fod ´na gymaint o eira. Ar ôl hynny does dim ond ychydig o eira wedi bod bob blwyddyn.”

Ond er y blynyddoedd eithriadol hyn, mae Elis yn dweud ei fod, yn gyffredinol, wedi gweld y gaeafau yn tyfu yn fwy mwyn ers dyddiau ei blentyndod.

“Oedde ni'n dechre cael niwl, glaw, eira a rhew ym mis Ebrill” cofia Elis, “Ym mis Mai roedde ni'n cael eira, rhew, glaw. Ym mis Mehefin wedyn, glaw ac eira, a thua diwedd Mehefin a dechre Gorffennaf roedd yr afon yn cael trwch o rew o un ochr i'r llall. Roedde ni’n mynd i sleidio arno fo, a cael cweir ambell i waith i gael twymo!”



***Mae Elis Williams wedi gweld newidiadau yn hinsawdd yr ardal dros Y blynyddoedd.***

Mae´n ymdddangos o´r hyn sydd y gan Elis i´w ddweud fod yr Afon Percy wedi newid ei hymddygiad yn sylweddol dros y blynyddoedd. Digwyddiad prin dros ben yw gweld yr afon yn rhewi drosodd y dyddiau yma, ac mae hefyd yn ymddangos fod gan yr afon lai o ddŵr ynddi – er budd i rai o drigolion Trevelin a´u heiddo, efallai. Meddai Elis:

“Swni'n dweud bod llai o law nawr nac beth oedd hi fel ers talwm. Roedd yr afon yn arfer codi a chwalu'r ochrau, ac yn dod jest iawn at y tŷ bob blwyddyn (Mae Elis yn byw oddeutu 150m o lannau afon Percy), ond does dim dŵr yn dod lawr nawr.

“Dwi´n cofio´r llifogydd yn 1939. Tua Medi´r 10fed oedd hi – dwi´n cofio oherwydd roedd plant newydd ddychwelyd i´r ysgol. Roedd llif y dŵr yn cyrraedd o'r boncyn acw i’r llall.” meddai Elis, gan gyfeirio at y bryniau sydd nail ochr o´r llall i´r afon, ac sydd rhyw 3-4km ar wahân.“Dwi’n cofio gweld rhywun mewn cwch ble mae’r steshon betrol yng nghanol y dre!”

“Mae'r haf yn teimlo'n fwy poeth o beth dipyn i gymharu â beth yr oedd hi. ‘Dani ddim yn cael haf gwastad fel yr oedd hi ers talwm. Mae rhai dyddiau gyda gormod o wres, a dyddiau eraill yn oer.”

Mae´r hyn sydd gan Elis i´w ddweud yn cael ei gadarnhau gan adroddiadau gwyddonol sydd wedi mesur y tywydd yn yr ardal dros y blynyddoedd, megis yr adroddiad a gyhoeddwyd gan brifysgol Torcuato di Tella, Buenos Aires nol yn 2007. Yn ôl eu hadroddiad hwy, bu gostyngiad o 1.2cm yn y glawiad blynyddol a welwyd yn Esquel rhwng 1967 a 1998, ynghyd a gostyngiad pendant yn y nifer o achlysuron pan welwyd glaw trwm ofnadwy.

Ar ben hyn, darganfuwyd fod tymheredd yr haf yn Esquel wedi codi o oddeutu 1.2°C rhwng 1961 ac 2001. Mae´r cynhesu hyn hefyd wedi achosi i´r isotherm 0°C - sef y man ar y mynyddoedd ble mae´r tymheredd yn taro 0°C ac yn gostwng bellach wrth ddringo – i godi i fyny´r mynydd. O ganlyniad, mae llai o eira i´w weld ar y mynyddoedd, ac mae hyn yn cael effaith ar y nifer o ddŵr sy´n tasgu lawr o´r mynyddoedd drwy gydol y flwyddyn.

Mae Erik Green, sydd yn ffermio ar gyrion Trevelin, eisoes yn byw gyda holl sgil-effeithiau y newidiadau hyn yn yr hinsawdd.

“Da ni ddim wedi gweld eira ar waelod y dyffryn es llawer o flynyddoedd”, meddai Erik.

“Pan mae eira ar y tir, tydio ddim yn llifo i ffwrdd ond yn dyfrhau´r tir yn ara deg i fewn i ´r Gwanwyn – ond mae´r glaw sydd i´w weld



***Mae´r sychder diweddar wedi bod yn peri problemau i´r ffermwr Erik Green.***

yn y gaeaf yn rhedeg oddi ar y tir yn gyflym. A wedyn pan ddaw´r gwanwyn a´r haf, does dim diferyn o law i´w weld”

“Mae llai o eira ar y mynyddoedd hefyd. O´r blaen roedd rhywun yn cael trafferth cyrraedd La Hoya i sgïo, ond does dim problem rŵan. Mae digon o eira yno i sgïo oes, ond dim digon i gael nentydd llawn dŵr drwy gydol yr haf.”

Mae canlyniadau´r sychder hyn i Erik yn rhai difrifol.

“Does dim gwair gwyrdd i´r anifeiliaid” meddai, “Tydi gwair sych o ddim gwerth i´r anifeiliaid.
“Pob blwyddyn mae llai o fwyd ar gael. Roni´n arfer bod gyda 120 o wartheg, rŵan mae llai na 70. Gyda´r sychder eleni, mae hyd yn oed 70 yn ormod. Y dewis yw cael llai o anifeilaid neu dyfrhau fwy, ond mae prynu peiriannau a dyfrhau yn beth drud ofnadwy. Mae´n rhaid cadw pwmp petrol i fynd – weithiau drwy´r dydd – a mae hynna´n costio ffortiwn”

Dim ond 1% o´r tanau yng ngorllewin Chubut sydd yn rhai naturiol - wedi eu hachosi gan fellt, er engraifft – ac mae´r gweddill yn rhai a achoswyd gan weithgareddau dynol, pu´n ai´n fwriadol neu beidio. Mae´r hafau poeth, sych yn golygu fod yr amodau yn y coedwigoedd yn caniatau tannau ar raddfeydd efallai na welwyd yn y gorffennol. Bydd y tan anferthol a losgodd dros 4000 hectar o goedwigoedd Parc Cenedlaethol Los Alerces ym mis Ionawr eleni yn aros yn hir yng nghof trigolion Esquel a Threvelin.

“Mae mwy o dannau wedi bod hefyd” eglura Erik.

“Mae hyn yn golygu fod anifeiliaid gwyllt, fel y Piwmas, yn cael eu gorfodi lawr o´r Parc Cenedlaethol i gyrion y dyffryn i chwilio am fwyd”.

Mae Erik wedi colli yn agos i 150 o ddefaid eleni yn barod.

Ond nid y Piwmas yw ei unig broblem. Cafodd y sgwarnog ei gyflwyno i´r Ariannin o Ewrop o gwmpas y flwyddyn 1888. Maent yn anifeiliaid sydd yn addasu´n dda iawn i´w hamgylchedd, ac yma yn yr Ariannin maent i´w gweld mewn pob mathau o wahanol gynefinoedd, o draethau´r Iwerydd at yr Andes. Yma yn Ariannin, maent yn cael eu hystyried i fod yn bla, a phob blwyddyn mae dros 6 miliwn ohonynt yn cael eu saethu, ond, er hyn, mae´n ymddangos fod y gaeafau mwyn yn golygu eu bod yn ffynnu.

“Mae yna fwy o sgwarnogod hefyd. O´r blaen roeddynt yn cael eu hela a´u allforio i´r Eidal – di hyn ddim yn digwydd y dyddiau ´ma, ac mae hyn yn broblem. Maen nhw´n bwyta´r gwair bach gwyrdd, ac yn cystadlu efo´r anifeiliad”

Mae Erik hefyd yn galarnadu dyfodiad rhywogaeth ymledol arall o Ewrop – sef y rhosyn gwyllt, neu´r mosqueta.

“Mae´r rhosod gwyllt yn cymeryd drosodd hefyd. Mae hyn yn golygu fod llai o wair i´r anifeiliaid. Mae´r rhosod gwyllt wedi bod yn cynyddu ers iddynt gyrraedd,” Eglura Erik.

“Daeth i Patagonia gyda´r Ewropeaid dros ganrif yn ôl.”

Er mae dyn sydd ar fai am gyflwyno´r mosquetas i Batagonia, mae´r ffaith eu bod yn addasu´n gyflym i fyw mewn amryw o wahanol hinsoddau yn golygu eu bod yn medru cymryd lle´r planhigion gwyllt brodorol. O ganlyniad, pan fo´r hinsawdd yn newid ac yn sychu, mae´r mosquetas yn medru ffynnu ble mae´r planhigion brodorol yn dioddef.”

Mae problemau o’r fath hyn yn rhai sy'n wynebu cymunedau ledled y byd, ac mae'n ymddangos eu bod yn rhai hirdymor. Tybed a fydd ein disgynyddion pell ninau'n medru uniaethu â'r datganiad enwog hono gan Gymro o anturiaethwr dros 130 o flynyddoedd yn ôl?!

*Erthygl gan Gwion Elis Williams*

# Cyfarchion Cynnes o Gaerdydd, Prifddinas Cymru

## Gan Gwilym Roberts

Yn ddiweddar derbyniais i gopïau o 'Llais yr Andes' a ches i fodd i fyw yn darllen cynnwys y papur, ond ar yr un pryd yn sylweddoli nad oni wedi anfon gair ers amser i ymddangos yn y papur!
Felly, dwi'n gwisgo lliain a lludw am fy arafwch yn ymateb i gais y brawd Isaias Grandis am erthygl. Mae'r amser yn pasio fel y gwynt ac anodd credu ei fod bron yn ganol mis Mawrth arnaf yn rhoi pin wrth bapur! Yma yng Nghymru 'da ni eisoes wedi dathlu Gŵyl ein Nawddsant Dewi a chyn bo hir rŵan byddwn yn dathlu'r Pasg. Hefyd, dan ni wedi gweld cefn y Gaeaf ac mae'r Gwanwyn yn y tir bellach tra dach chi draw yn wynebu'r Hydref a'r Gaeaf. Mae Caerdydd yn edrych ar ei gorau yn y Gwanwyn. Blodau gwyn a phinc a miloedd o Gennin Pedr yn harddu ein gerddi a'n parciau.
Anodd credu bod Blwyddyn y Dathlu mawr drosodd. Buodd y flwyddyn yn hynod o lwyddiannus draw ac yng Nghymru ac erbyn hyn mae llawer o bobl yn ymwybodol o hanes arwrol y Gwladfawyr cyntaf draw ym Mhatagonia bell.
Yr wythnos hon clywais i Clare Vaughan yn siarad ar Radio Cymru am agor Cymraeg/Sbaeneg yr Andes a hoffwn i anfon fy nghyfarchion a'n dymuniadau gorau i bawb sy'n ymwneud a'r ysgol. Mae breuddwyd wedi troi'n ffaith a rŵan mae gobaith i'r iaith a'i thraddodiadau oroesi yn yr Andes a'r Dyffryn. Heb blant yn siarad yr iaith does dim gobaith i unrhyw iaith barhau. Yma yng Nghymru mae rhwydwaith ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi eu sefydlu ym mhob cwr o'r wlad gyda miloedd o blant yn eu mynychu ac felly mae dyfodol sicr i'n hiaith yma yn yr Hen Wlad. Dyfal donc a fuodd hi draw ac yma yng Nghymru. Serch hynny does dim lle i laesu dwylo ac felly rhaid dal ati yn ddyfal i chwifio'r Ddraig Goch ar fynyddoedd a bryniau'r Wladfa a Chymru!

# DATHLU PLEBISCITO YSGOL 18, EBRILL 30

**Diwrnod hynod o bwysig** yng nghalendr blynyddol Trevelin yw dathlu´r Plebiscito, sef pleidlais a gynhaliwyd 114 o flynyddoedd nôl i benderfynu pun ai fyddai Cwm Hyfryd yn berchen i Chile neu Ariannin. Dethlir y penderfyniad yn flynyddol gan roi sylw penodol i gyfraniad y sefydlwyr cyntaf o Gymru. Gyda´r nos, trefnwyd cyngerdd fawreddog gan **Gymdeithas Gymraeg Trevelin**. Cafwyd perfformiadau arbennig i ddathlu Cymreictod yr ardal.







# ABERYSTWYTH AC ABERTEIFI - GEFEILLIO



Daeth Stephen Tooth o brifysgol Aberystwyth i ymweld â´r ardal. Y gobaith yw bydd ei ymweliad yn ail sbarduno´r berthynas rhwng trefi Ceredigion ac ardal yr Andes.

Yn ogystal ag Aberystwyth ac Esquel, oeddech chi´n gwybod bod hefyd berthynas rhwng Trevelin ac Aberteifi?

Mae cyfarfod yn cael ei chynnal yn Nhrevelin ac estynnir croeso cynnes i bawb i ymuno. **Dewch i Ysgol y Cwm (yn yr ystafell gyfarfod) ddydd Mawrth y 10fed o Fai am 2yp.** Bydd José Jones a Victor Yañez o lywodraeth y dref yno i drafod a rhannu syniadau. *Invitación a todos a participar en una reunion para hablar sobre el hermanamiento entre Trevelin y Aberteifi en la Escuela de Galės Ysgol y Cwm el dia Martes 10 de Mayo a las 14 hs.*

# ARDDEGWYR TREVELIN

Mae criw brwdfrydig arddegwyr Trevelin yn parhau i ddod at ei gilydd dair gwaith yr wythnos i gymdeithasu, i wella´u Cymraeg ac i ymarfer eu dawnsio gwerin. Maen nhw newydd orffen ffilm fer fydd yn cael ei rhyddhau cyn hir!



Ydyn, maen nhw´n griw gwych, ond rhaid hefyd estyn diolch i´r sawl sy´n eu hannog i ddod at ei gilydd yn rheolaidd, yn enwedig Sara Borda Green a brenhines y ddawns werin, Jessica Jones!

